

Dod â staff ynghyd yng Ngholeg y Cymoedd

Roedd y Coleg bob amser wedi darparu cyfleoedd i staff gyfranogi yn natblygiad eu sgiliau digidol proffesiynol, yn ystod sesiynau hyfforddi DPP penodedig neu ddiwrnodau HMS. Fodd bynnag, roedd mabwysiadu'r sgiliau hyn mewn addysgu ac arferion gwaith yn dal i ganolbwyntio ar 'bocedi' o lwyddiant, heb fawr o rannu gwybodaeth ar draws y coleg neu rhwng ysgolion ac adrannau.

Cafodd ei gydnabod gan y Rheolwr TGD Strategol a'r Swyddog Datblygu Dysgu na fyddai newid sylweddol yn llwyddo oni byddai'r Coleg yn dod â 'holl staff' ynghyd mewn diwrnod HMS Digidol pwrpasol.

Â chefnogaeth y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth ac aelodau'r uwch dîm rheoli, trefnwyd diwrnod llawn o rwydweithio, sgyrsiau hysbysu a chynadleddau ym mis Rhagfyr 2016, i gyd-fynd â lansiad Gweledigaeth Ddigidol y Coleg.

Yn sgil hyn, daeth yr holl gymorth staff, academiaidd a busnes ynghyd ar Gampws Nantgarw i gyfranogi mewn diwrnod cyfan o ddatblygiad digidol a sgyrsiau megisl:

- Anerchiad agoriadol gan y Dirprwy Bennaeth
- Prif Siaradwr Esther Barrett - Jisc. Dysgu yn yr 21^{ain} Ganrif.
- Rhwydweithio ag Uwch Arweinwyr
- 2 'Barth Dysgu' galw heibio - yn cynnig goleuni/sgyrsiau digidol rhwng Cymheiriaid ac enghreifftiau o ymarfer digidol
- Gweithdai digidol wedi'u harchebu ymlaen llaw y gallai staff ddewis
- Stondinau Cymorth Busnes, i alluogi staff i geisio cymorth â systemau a gwasanaethau allweddol y Coleg

Roedd ffocws y Sgyrsiau Digidol a Gweithdai Digidol yn cynnwys:

- Plickers
- Markting
- Kahoot
- Twitter
- Padlet
- MOOC my Day
- Class OneNote
- Llythrennedd Digidol
- Office 365
- Turitin
- WEST Assessments
- Hygyrchedd yn Windows 10

Cafodd y digwyddiad ei farchnata'n dda gan ddulliau digidol mwy traddodiadol, yn ogystal â Twitter, Yammer (â'i ffrwd ei hun yn ystod y

diwrnod i alluogi staff i rannu eu profiadau), a phorth pwrpasol SharePoint ble gallai staff gael mynediad at gyflwyniadau gan siaradwyr allweddol a'u cydweithwyr.

Roedd yr adborth gan staff yn gadarnhaol iawn.

- *Roedd y staff addysgu yn hyfforddi staff addysgu*
 - *Llawer o bethau gwahanol i'w profi*
 - *Hyblygrwydd i archebu lle ar y pethau sydd o ddiddordeb mwyaf i chi*
 - *Darparu syniadau newydd ynghylch technoleg a'r neges i beidio â bod ofn rhywbeth newydd.*
 - *Cwrdd ag aelodau eraill o staff o ardaloedd eraill*
 - *Gwrando ar Esther Barrett a gweld cydweithwyr yn dangos sut byddant yn defnyddio technoleg yn yr ystafell ddosbarth.*
 - *Gweld brwdfrydedd a chyfranogiad rhai aelodau o staff*
 - *Roedd yn dda gweld cymaint o gydweithwyr brwdfrydig oedd yn dymuno gwella ein galluoedd digidol*
 - *Dysgu ffyrdd newydd o gynnwys TGCh yn fy addysgu*
-